Adran Gwaith a Phensiynau

# Cyflwyniad i **Daliadau Tywydd Oer**


**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **CWP1WER** 10/25

# Cynnwys


1




**Cyflwyniad**

Tudalen 3

2




**Pwy all gael Taliad Tywydd Oer**

Tudalen 6

3



**Beth fyddwch yn ei gael**

Tudalen 11

4



**Os nad ydych yn cael eich Taliad Tywydd Oer**

Tudalen 14


# 1 Cyflwyniad



Mae Taliad Tywydd Oer yn arian ychwanegol i gefnogi pobl yn ystod adegau o dywydd oer iawn yn y gaeaf.




Mae'n rhaid eich bod yn cael budd-daliadau penodol i gael taliad.





Fel arfer, yng Nghymru a Lloegr mae Taliadau Tywydd Oer yn cael eu talu rhwng **1 Tachwedd** a **31 Mawrth**.




Gwneir Taliadau Tywydd Oer pan fydd y tymheredd cyfartalog yn eich ardal, neu pan ragwelir y bydd:

- 0°C
- O dan 0°C

am o leiaf 7 diwrnod yn olynnol.




Bydd y wybodaeth hon yn dweud mwy wrthych **am** y taliadau, **pwy** gallai eu cael a **sut**.

# Os ydych yn byw yn Yr Alban




Ni fyddwch yn cael Taliad Tywydd Oer os ydych yn byw yn Yr Alban.



Os ydych yn byw yn Yr Alban, byddwch yn cael **Winter Heating Payment**.

Am fwy o wybodaeth, ewch i www.mygov.scot/winter-heating-payment

# 2 Pwy all gael Taliad Tywydd Oer





I gael Taliad Tywydd Oer, mae'n rhaid i chi fod yn cael 1 o'r budd-daliadau canlynol:

- Credyd Pensiwn
- Credyd Cynhwysol
- Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI)




- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm.




Os ydych yn cael Credyd Pensiwn, byddwch fel arfer yn cael Taliadau Tywydd Oer.

## Credyd Cynhwysol

Fel arfer, ni allwch fod yn gyflogedig nac yn hunangyflogedig i gael Taliad Tywydd Oer ar Gredyd Cynhwysol.



Mae'n rhaid i un o'r canlynol hefyd fod yn gymwys:

- Mae gennych gyflwr iechyd neu anabledd
- Mae gennych gallu cyfyngedig i weithio
- Mae gennych blentyn o dan 5 oed yn byw gyda chi.



Os oes gennych **blentyn anabl** yn byw gyda chi, nid oes gwahaniaeth a ydych yn gyflogedig ai peidio.

Gallech dal fod yn gymwys am Daliad Tywydd Oer.

# Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI)




Byddwch fel arfer yn cael Taliad Tywydd Oer os ydych yn cael Cymorth ar gyfer Llog Morgais (SMI) os oes gennych un o'r canlynol:

- Premiwm anabledd difrifol neu uwch
- Premiwm pensiwn



- Plentyn sy'n anabl
- Plentyn o dan 5 oed sy'n byw gyda chi.

## Cymhorthdal Incwm a Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm



Byddwch fel arfer yn cael Taliadau Tywydd Oer os ydych:

- Yn cael premiwm anabledd neu bensiynwr



- Â phlentyn sy'n anabl
- Cael plentyn o dan 5 oed sy'n byw gyda chi.

# Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm



Mae'n rhaid i chi fod mewn grŵp gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gwaith neu grŵp cymorth i gael Taliad Tywydd Oer.



Os nad ydych yn y naill grŵp, efallai gallech gael Taliad Tywydd Oer o hyd os ydych:

- Yn cael premiwm anabledd difrifol neu uwch
- Rydych yn cael premiwm pensiwn




- Mae gennych blentyn sy'n anabl
- Mae gennych blentyn o dan 5 oed yn byw gyda chi.

# 3 Beth fyddwch yn ei gael




Byddwch yn cael £25 am bob cyfnod 7 diwrnod o dywydd oer iawn.




Fel arfer, mae'r taliadau hyn cael eu gwneud ar gyfer dyddiau rhwng **1 Tachwedd** a **31 Mawrth**.




Nid oes angen i chi gwneud cais am Daliadau Tywydd Oer.



I bobl sy'n gymwys, maent yn cael eu talu'n awtomatig.




Nid yw Taliadau Tywydd Oer yn effeithio ar fudd-daliadau eraill.



Mae Taliadau Tywydd Oer yn cael eu talu i'r un cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu a'ch taliad budd-dal.





**O fewn 14 diwrnod**

Fel arfer, gwneir taliadau o fewn 14 diwrnod gwaith ar ôl bob cyfnod o dywydd oer.

I wirio a yw Taliad Tywydd Oer yn berthnasol i'ch ardal chi, ewch i coldweatherpayments.dwp.gov.uk

4

# Os nad ydych yn cael eich Taliad Tywydd Oer



Dywedwch wrthym ar unwaith os credwch y dylech wedi cael Taliad Tywydd Oer.



Cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn os ydych yn cael Credyd Pensiwn:

Ffôn: **0800 731 0453**



Os na allwch glywed na siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 791 0469**




Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid fideo.




I gael gwybod am sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ar ffôn neu lechen, ewch i

[www.gov.uk/cysylltwch-gwasanaeth-pensiwn](http://www.gov.uk/cysylltwch-gwasanaeth-pensiwn)




Rhif ffôn Llinell Saesneg:

**0800 731 0469**




Mae'r llinellau ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8am i 6pm.




Os ydych yn cael Credyd Cynhwysol, mewngofnodwch i'ch cyfrif ar-lein.

[www.gov.uk/mewngofnodi-ich-cyfrif-credyd-cynhwysol](www.gov.uk/mewngofnodi-ich-cyfrif-credyd-cynhwysol)



Yna gallwch ychwanaegu neges i'ch dyddlyfr i ddweud wrthym am y taliad coll.



Os nad oes gennych gyfrif ar-lein, gallwch gysylltu â llinell gymorth Credyd Cynhwysol:

Ffôn: **0800 328 1744**




Os na allwch glwyed na siarad dros y ffôn, defnyddiwch Relay UK:

**18001** yna **0800 328 5644**



Os ydych yn fyddar ac yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain efallai y gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth cyfnewid fideo.




I ddod o hyd i sut i ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ar ffôn symudol neu lechen, ewch i

www.gov.uk/credyd-cynhwysol/cysylltu-credyd-cynhwysol

canolfanbydgwaith

Adran Gwaith
a Phensiynau

Cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith os ydych yn cael unrhyw fudd-dal cymwys arall.




Bydd eu manylion cyswllt ar unrhyw lythyrau ganddynt.

Neu gallwch fynd www.gov.uk/cysylltu-canolfan-byd-gwaith/ceisiadau-presennol-am-fudddal

I gael mwy o wybodaeth am Daliadau Tywydd Oer, ewch i www.gov.uk/taliad-tywydd-oer